



You matter | Ti'n cyfri

Gwobrau Arfer Da 2026

YR ENILLWYR

Noddwyr Arweiniol:



Tai
Wales & West
Housing

Gair gan ein Noddwyr



Rydym wrth ein bodd yn noddi Adroddiad Gwobrau Arfer Da TPAS Cymru 2026, sy'n rhoi sylw i gyflawniadau trigolion.

Mae'r gwaith y mae TPAS Cymru yn ei wneud i sicrhau bod lleisiau trigolion yn cael eu clywed a'u dathlu mor bwysig. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r ffyrdd newydd ac arloesol y mae trigolion yn helpu i lunio'r gwasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Eleni, gwelir cyflwyno sawl gwobr newydd yn ogystal â'r categorïau poblogaidd sy'n canolbwyntio ar gymunedau a gwasanaethau. Mae'r gwobrau newydd hyn yn cydnabod sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio i sicrhau bod cartrefi tenantiaid a thrigolion yn ddiogel ac yn iach a'r contractwyr hynny sy'n rhoi tenantiaid a thrigolion wrth wraidd y ffordd y maent yn cynllunio ac yn cyflawni eu gwaith.

Llongyfarchiadau i bawb y mae eu gwaith wedi'i gynnwys yn yr adroddiad arfer gorau hwn.

Gobeithio y bydd yn ysbrydoli mwy o arloesedd a straeon llwyddiant ar gyfer y dyfodol.

Anne Hinchey
Prif Weithredwr y Grŵp,
Tai Cymru a'r Gorllewin



**GOOD | GWOBRAU
PRACTICE | ARFER
AWARDS | DA 2026**



Croeso i Adroddiad Gwobrau Arfer Da TPAS Cymru 2026, sy'n dathlu'r cyflawniadau eithriadol mewn cyfranogiad ac ymgysylltiad tenantiaid yng Nghymru. Eleni, fe wnaethom amlygu dulliau arloesol a phrosiectau effeithiol sy'n rhannu syniadau newydd a thystiolaeth o arfer gorau.

Roedden ni'n gyffrous i ddod ynghyd â phawb yn ein lleoliad newydd sbon yng Nghaerdydd i rannu arfer da, gyda'r nod o ddathlu cyflawniadau o fewn y sector ac ysbrydoli arloesedd.

Y categorïau ar gyfer 2026 oedd:

- Tenantiaid yn Dylanwadu ar Wneud Penderfyniadau
- Ymgysylltu â Thenantiaid mewn Mentrau Amgylcheddol
- Cynnwys Tenantiaid wrth Ddylunio/Adolygu Gwasanaethau
- Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau
- Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr
- Rhaglen Cymorth/Cyngor i Breswylwyr
- Ymgysylltu â Phreswylwyr mewn Cartrefi Diogel ac Iach
- Contractwr sy'n Canolbwyntio ar Denantiaid
- Tenant y Flwyddyn

Rhoddwyd **dwu wobwr gydnabyddiaeth arbennig** hefyd - un i ddathlu gwaith tenantiaid/preswylwyr ac un arall i gydnabod gwaith landlord.

Yn y llyfryn hwn, rydym yn rhannu gyda chi'r ceisiadau buddugol a'r 3 uchaf y beirniaid ym mhob categori.

Diolch i enwebwyr y gwobrau am ddarparu'r cynnwys ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydym wedi ychwanegu eu manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r ceisiadau buddugol os ydych chi eisiau gwybod mwy am y prosiectau.

Diolch eto i bawb a gymerodd ran, a gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y ceisiadau buddugol cymaint ag y gwnaeth y beirniaid a ni.

Tenantiaid yn Dylanwadu ar Wneud Penderfyniadau



ENILLYDD

Panel Craffu Hafod

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: michelle.mcgregor@hafod.org.uk

Mae Panel Craffu Hafod yn enghraifft glir o sut mae tenantiaid yn cael eu cefnogi, eu grymuso a'u hymddiried i ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol y sefydliad.

Nid yw'r Panel yn gynghorol mewn enw yn unig. Mae'n gorff tenantiaid strwythuredig, uchel ei barch wedi'i gefnogi'n dda sydd wedi llunio penderfyniadau'n uniongyrchol ar lefel y Bwrdd, dylanwadu ar bolisiau, gwella cyfathrebu, newid y ffordd y darperir gwasanaethau a chryfhau atebolrwydd ar draws y sefydliad.

Sut y cafodd tenantiaid eu cefnogi a'u grymuso i gymryd rhan:

Mae tenantiaid yn cael eu grymuso drwy Banel Craffu ffurfiol, agored a thryloyw sydd â dylanwad clir a chysylltiadau cryf â chydweithwyr a'r Bwrdd.

Sut mae'r Panel yn gweithio

- Recriwtio agored, dull hyblyg a hygyrch i bob tenant
- 7 aelod i gyd, gan gynnwys 2 aelod newydd a recriwtiwyd
- Cyfarfodydd yn cael eu cynnal 4 gwaith y flwyddyn, ar-lein, gydag un sesiwn gynllunio wyneb yn wyneb
- Mynediad hybrid ar gael i gael gwared ar rwystrau i gyfranogiad
- Cworwm clir (3 aelod) fel bod penderfyniadau'n cael eu harwain gan denantiaid yn wirioneddol
- Papurau'n cael eu rhannu o leiaf bythefnos ymlaen llaw, gan alluogi her wybodus
- Agendâu strwythuredig gydag amser neilltuedig ar gyfer:
 - Adborth y Bwrdd
 - Diweddariadau ymgysylltu
 - Trafodaeth agored a herio

Grymuso mewn ymarfer

- Mae tenantiaid yn gosod pynciau craffu, yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i denantiaid
- Mae aelodau'r panel yn cadeirio trafodaethau, yn gofyn cwestiynau ac yn gofyn am dystiolaeth o newid
- Mae canlyniadau craffu yn cael eu cofnodi'n ffurfiol drwy:
 - Log gweithredu
 - Adroddiadau'r bwrdd
 - Diweddariadau dilynol mewn cyfarfodydd dilynol

Graddfa cyfranogiad tenantiaid dros y 12 mis diwethaf

- Cyfrannwyd 110 o oriau gwirfoddol
- Trafodwyd 9 pwnc craffu pwysig
- Dylanwadwyd ar 30 o benderfyniadau sefydliadol
- Cwblhawyd 41 o gamau gweithredu a 25 ar y gweill ar hyn o bryd

Cymorth a gynigir i alluogi tenantiaid i gymryd rhan:

Cefnogir cyfranogiad mewn ffordd ymarferol, gynhwysol a chymesur i sicrhau bod Craffu yn ystyrlon yn hytrach nag yn symbolaidd.

Cymorth Ymarferol

Mae cyfranogiad cynhwysol yn cael ei alluogi trwy gymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys cyfraniad Wi-Fi misol, tabledi wedi'u benthycu gyda mynediad TEAMS i gyfarfodydd hwyr yn y bore hyblyg gyda seibiannau adeiledig, cymorth trafniadaeth, a darparu gwybodaeth glir, hygyrch ymlaen llaw.

Sgiliau, Hyder a Gwybodaeth

Mae rhaglen hyfforddi Craffu wedi'i theilwra, gyda chefnogaeth arbenigwyr mewnol, yn cryfhau gwybodaeth, perthnasoedd ac effeithlonrwydd - gan gyflawni £1,500 mewn arbedion a ailfuddsodwyd mewn mannau eraill. Mae siaradwyr gwadd yn rhoi cipolwg ar draws meysydd allweddol gan gynnwys cwynion, profiad cwsmeriaid, atgyweiriadau, datgarboneiddio a gosod rhenti.

Cefnogaeth a Ymddiriedaeth Barhaus

Mae ymgysylltiad cryf gan uwch swyddogion a pherthnasoedd adeiladol gyda chydweithwyr a'r Bwrdd yn grymuso tenantiaid i gyfrannu'n ystyrlon, gan gynnwys siarad mewn cynadleddau, cefnogi recriwtio uwch swyddogion, a llunio cyfathrebu corfforaethol.


Sut dylanwadodd barn tenantiaid ar benderfyniadau a'r gwahaniaeth a wnaed:

Mae'r Panel Craffu wedi cyflawni newid pendant, wedi'i brofi, gan ddylanwadu ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a pha mor dryloyw yw'r sefydliad gyda chwsmeriaid.

Mae ymgysylltiad y Bwrdd wedi gwella drwy gyflwyno templed adborth a gynlluniwyd gan y Panel Craffu, sydd bellach wedi'i ymgorffori fel arfer safonol. Mae hyn wedi cryfhau atebolrwydd, gan sicrhau bod heriau tenantiaid yn cael eu hymateb yn weladwy a gwella'r berthynas rhwng tenantiaid a'r Bwrdd.

Mae craffu hefyd wedi cyflawni gwelliannau clir o ran tryloywder, profiad cwsmeriaid a chyfathrebu. Mae newidiadau i gyfathrebu gosod rhenti, adrodd ar gwynion, a mynediad digidol wedi cynyddu dealltwriaeth cwsmeriaid, cryfhau ymddiriedaeth, a gwella safonau gwasanaeth. Mae dylanwad ehangach y Panel wedi llunio mentrau cymunedol, datblygu polisïau, ac arferion sefydliadol, tra bod aelodau wedi cyfrannu at recriwtio, caffael, ac ymgysylltu allanol - gan ennill cydnabyddiaeth genedlaethol a gwreiddio llais y tenantiaid mewn gwneud penderfyniadau.

I grynhoi, mae'r panel craffu yn gorff tenantiaid cryf, hyderus a pharchus. Dyma yw grymuso tenantiaid mewn ymarfer - nid ymgynghoriath, nid symbolaeth, ond dylanwad go iawn wedi'i gefnogi gan weithredu.



Dysgwch fwy am Banel Craffu Hafod yma: <https://www.hafod.org.uk/homes-and-communities/get-involved/scrutiny-panel/>



Grŵp Siopwyr Dirgel (Tai Môn)

Cyswllt: nikkijones@ynysmon.gov.uk

Mae Grŵp Gwella Gwasanaethau Tai Môn yn dangos dull cydweithredol cryf o gyd-gynhyrchu, gan ddod â thenantiaid a staff ynghyd i yrru gwelliannau gwasanaeth ystyrion. Mewn ymateb i fodlonrwydd isel gydag atgyweiriadau, arweiniodd y grŵp ymarfer siopa dirgel annibynnol, gan ennill cipolwg uniongyrchol ar daith y cwsmer a chynhyrchu adroddiad cadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth gydag argymhellion clir ac ymarferol. Mae llawer o'r rhain wedi'u rhoi ar waith ers hynny, gan gynnwys gwelliannau i gyfathrebu, staffio, prosesau digidol, a thryloywder polisi. O ganlyniad, mae gwasanaethau bellach yn fwy hygyrch, ymatebol, ac wedi'u halinio ag anghenion tenantiaid, gan gyfrannu at gynnydd mesuradwy o 4% mewn boddhad gydag Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw. Mae'r gwaith hwn yn tynnu sylw at effaith pendant gwrando ar denantiaid a gwreiddio eu llais mewn dylunio a darparu gwasanaethau.



Gosod Rhent a Chyllideb (Cartrefi Cymoedd Merthyr)

Cyswllt: allison.soroko@mvhomes.org.uk

Mae'r Polisi Rhent Byw yn dangos dull cryf, dan arweiniad tenantiaid, o ymdrin â thegwch a fforddiadwyedd, gyda rhenti wedi'u cysylltu ag incwm lleol ac wedi'u llunio trwy gyd-ddylunio â'r Corff Democrataidd. Yn dilyn adolygiad cynhwysfawr yn 2025, wedi'i lywio gan ymgynghoriad helaeth â thenantiaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, diweddarwyd y polisi i gyflwyno strwythur rhent cliriach a chryfhau tryloywder ynghylch rhent a thaliadau gwasanaeth. Arweiniodd y Corff Democrataidd y broses hon, gan gydbwysu fforddiadwyedd â'r angen am fuddsoddiad, a sicrhau bod adborth tenantiaid yn dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau. Y canlyniad yw dull addasadwy, sydd â thystiolaeth dda, sy'n cynnal lefelau uchel o werth a fforddiadwyedd canfyddedig, gan atgyfnerthu dylanwad tenantiaid mewn gwneud penderfyniadau strategol.

Ymgysylltu â Thenantiaid mewn Mentrau Amgylcheddol



ENILLYDD

Cynnwys Tenantiaid yng ngwaith Ôl- osod Carbon Isel Grŵp Cynefin

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Mentraucymunedol@grwpcynefin.org

Yn ystod 2024–25, cynhaliodd Grŵp Cynefin waith ôl-osod ar draws nifer o'u cartrefi i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau ôl troed carbon a gwella cysur cartrefi tenantiaid. Roedd y gwaith yn cynnwys gosod paneli solar, pypiau gwres aer ac inswleiddio, fel ymateb ymarferol i'r argyfwng hinsawdd a'r heriau cost byw sy'n wynebu tenantiaid.

Cyn i unrhyw waith ôl-osod ddechrau, cynhaliwyd gweithdai ymgynghori hanesyddol gyda staff a thenantiaid fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Yn ogystal ag effeithlonrwydd ynni, trafodwyd blaenoriaethu gwaith ar draws y stoc tai, iechyd a diogelwch, dulliau o gyflawni'r gwaith, a dylanwad a dewis tenantiaid. Gosododd y gwaith cefndirol hwn sylfaen gref ar gyfer y rhaglen ôl-osod, gan sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar brofiadau tenantiaid - nid tenantiaid heb lais, ond tenantiaid fel partneriaid yn y prosiect.

Sut roedd tenantiaid yn ymgysylltu â chymorth cynhwysol ac yn ei ddarparu:

Roedd ymgysylltu â thenantiaid yn elfen ganolog drwy gydol y prosiect. Defnyddiwyd ystod eang o ddulliau i sicrhau cynhwysiant ac i gyrraedd tenantiaid ag anghenion gwahanol, gan gynnwys:

- gweithdai wyneb yn wyneb gyda thenantiaid a staff
- holiaduron ar-lein
- galwadau ffôn i denantiaid heb fynediad digidol
- ymweliadau cartref gan Archwilwyr Tenantiaid

Chwaraeodd Archwilwyr Tenantiaid rôl allweddol wrth gasglu adborth gonest, gan sicrhau bod lleisiau tenantiaid llai adnabyddus wedi'u cynnwys. Mewn ymateb i bryderon ynghylch technolegau carbon isel, gwellwyd cyfathrebu trwy daflen Holi ac Ateb ddiwygiedig, mewn iaith glir, sy'n egluro'r broses ôl-osod a'i manteision yn glir. Cyflwynwyd cefnogaeth ddilynol hefyd, gan gynnwys atgyfeiriadau at wasanaeth warden ynni, i helpu tenantiaid i deimlo'n hyderus a chynyddu enillion effeithlonrwydd ynni.



Effaith yr ymgysylltiad a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer y dyfodol:

Mae'r dull hwn o ymgysylltu wedi arwain at effaith gadarnhaol a gwirioneddol ar fywydau tenantiaid. Mae llawer wedi nodi cartrefi cynhesach, defnydd mwy effeithlon o ynni ac, mewn llawer o achosion, gostyngiad mewn biliau ynni. Yn bwysig iawn, mae'r gwaith wedi cyfrannu at well lles, urddas a hyder tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain.

Mae cyflwyno'r daflen Cwestiynau ac Atebion wedi cael effaith ymarferol drwy leihau pryder tenantiaid, gwella dealltwriaeth o'r dechnoleg newydd, a chynyddu parodrwydd tenantiaid i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r newid i fyw'n fwy cynaliadwy.

Mae effaith y gwaith hefyd yn cael ei hadlewyrchu mewn adborth uniongyrchol gan denantiaid, fel profiad **Ms M o Barc Aelas, Llangernyw**:

"Roeddwn i'n arfer teimlo cywilydd wrth wahodd pobl i mewn i'r tŷ oherwydd ei fod mor oer. Ers cael y system wresogi newydd, mae'r cartref yn llawer cynhesach ac mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm bywyd. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar."

Mae'r dyfyniad hwn yn tanlinellu bod y prosiect yn fwy na gwelliannau technegol - mae'n ymwneud â gwella ansawdd bywyd bob dydd a sicrhau bod tenantiaid yn teimlo'n falch ac yn gyfforddus yn eu cartrefi carbon isel.



Mae gwersi a ddysgwyd yn cael eu hymgorffori fel proses barhaus o wrando, dysgu a gwella, yn hytrach nag ymarfer untro. Wrth i'r rhaglen ôl-osod barhau i 2025/26, cynhelir sesiynau ymgysylltu pellach o fewn cymunedau lleol i gasglu adborth, deall profiadau tenantiaid, a mireinio sut mae mentrau amgylcheddol yn cael eu cyfleu. Er mwyn sicrhau cynhwysiant, bydd Archwilwyr Tenantiaid hefyd yn ymweld â'r rhai na allant fynychu'n bersonol, gan sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed.

Bydd mewnwelediadau o'r ymgysylltiad parhaus hwn, ochr yn ochr ag adnoddau fel y sesiwn Holi ac Ateb i denantiaid, yn helpu i lunio rhaglenni ôl-osod ac amgylcheddol yn y dyfodol, meithrin hyder mewn technolegau cynaliadwy, ac annog ymddygiadau ynni cadarnhaol. Mae'r dull hwn yn cefnogi lleihau carbon yn y tymor hir wrth ddarparu model cryf o arfer da, gan ddangos bod ymgysylltiad

tenantiaid ystyrlon a dysgu parhaus yn allweddol i greu cymunedau llwyddiannus a chynaliadwy.

I grynhoi, mae hyn yn dangos sut y gall mentrau amgylcheddol lwyddo'n well pan fydd tenantiaid yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf, pan gaiff adborth ei gymryd o ddirif, a phan fydd dysgu parhaus yn sail i'r symudiad tuag at gymunedau mwy cynaliadwy.



Prosiect Tyfu Myddleton Avenue (Cyngor Sir Ddinbych)

Cyswllt: Luisa.Citra@denbighshire.gov.uk

Mae Gardd Gymunedol Rhodfa Myddleton yn enghraifft bwerus o fenter ar lawr gwlad, dan arweiniad y gymuned, sydd wedi trawsnewid darn o dir nas defnyddir yn ofod ffyniannus a chynhwysol yng nghanol y gymdogaeth. Wedi'i yrru gan drigolion lleol a'i gefnogi gan bartneriaid, daeth y prosiect â phobl ynghyd i ddylunio a chreu gardd hygyrch sy'n hyrwyddo tyfu bwyd, rhannu sgiliau a chysylltiadau cymdeithasol. Trwy sesiynau rheolaidd, arweinyddiaeth wirfoddol gref a ffocws ar gynhwysiant, mae'r ardd wedi dod yn ganolfan groesawgar sy'n lleihau unigedd, yn meithrin hyder ac yn cryfhau cysylltiadau cymunedol. Mae llwyddiant yr ardd yn gorwedd yn ymroddiad a chydweithrediad ei gwirfoddolwyr, sydd wedi creu gofod diogel a gwerthfawr wedi'i lunio gan anghenion lleol a phrofiad byw. Nid yn unig y mae wedi gwella'r amgylchedd ffisegol ond hefyd wedi adfywio ysbryd cymunedol, gan feithrin cyfeillgarwch, cefnogi lles ac ailgysylltu cymdogion.



Trosglwyddo Preswylwyr i Gartrefi Iach, Carbon Isel (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Cyswllt: kasliz@caerphilly.gov.uk

Mae'r dull hwn yn rhoi trigolion wrth wraidd darparu cartrefi diogel ac iach trwy gyfathrebu clir, cymorth wedi'i deilwra ac ymyriadau ymarferol, yn enwedig o fewn stoc tai hŷn a mwy cymhleth. Cymerodd trigolion ran weithredol drwy gydol y gwaith ôl-osod i ddeall sut y gwnaeth gwelliannau fel inswleiddio, awyru a systemau adnewyddadwy wella diogelwch, lleihau lleithder a gwella amodau byw. Mae ffocws cryf ar gynhwysiant, cyfathrebu hygyrch a chymorth parhaus wedi sicrhau y gall pob preswlydd ymgysylltu'n effeithiol, gyda chanllawiau ychwanegol ar wresogi, awyru a rheoli lleithder. Mae hyn wedi arwain at welliannau mesuradwy, gan gynnwys cartrefi cynhesach ac iachach, llai o leithder a llwydni, costau ynni is a mwy o hyder gan denantiaid.

Cynnwys Tenantiaid wrth Ddylunio/Adolygu Gwasanaethau



ENILLYDD

'Fix It Together': Offeryn Diagnostig Atgyweirio dan Arweiniad Tenantiaid a Gyd-gynhyrchwyd gan Trivallis

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Kacey.Davies@trivallis.co.uk

Mae Gweithgor Atgyweiriadau Trivallis yn rhan o seilwaith cynnwys tenantiaid ehangach, sefydledig. Mae aelodau'n ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned denantiaid ehangach trwy raglen barhaus o ymgysylltu sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gan gynnwys diwrnodau hwyl, curo drysau, glanhau cymunedol, galw heibio, arolygon, a chyfarfodydd tenantiaid strwythuredig. Mae hyn yn sicrhau nad yw mewnwelediad yn cael ei dynnu o grŵp bach neu hunan-ddewisol, ond ei fod yn adlewyrchu profiad byw tenantiaid ar draws gwahanol gymunedau, oedrannau, mathau o aelwydydd, ac amgylchiadau.

Gan dynnu ar eu profiadau bywyd, nododd tenantiaid rwystrau cyson i gael mynediad at wasanaethau atgyweirio, yn enwedig i'r rhai sy'n cydbwysu gwaith, cyfrifoldebau gofalu neu argaeledd cyfyngedig yn ystod oriau safonol. Trwy ymgysylltu parhaus, daeth yn amlwg nad oedd dulliau adrodd traddodiadol bellach yn effeithiol nac yn hygyrch i lawer o drigolion. Yn hytrach na dim ond tynnu sylw at y materion hyn, cymerodd tenantiaid o fewn y Grŵp Gwaith Atgyweirio rôl weithredol wrth lunio atebion, gan gynnig offeryn atgyweirio hunanwasanaeth digidol i wella hygyrchedd. Nododd hyn symudiad o ymgynghori i gyd-gynhyrchu gwirioneddol, gyda thenantiaid yn gweithio ar y cyd â staff ac yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol ynghylch ddylunio a buddsoddi gwasanaethau.

Parhaodd tenantiaid i chwarae rhan ganolog wrth ddylunio a mireinio'r system, gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion bywyd go iawn, fel y gallu i uwchlwytho lluniau a fideos i wella eglurder a chyfraddau atgyweiriadau tro cyntaf. Fe wnaethant hefyd arwain dull profi cynhwysol trwy weithdai ymarferol, gan gynnwys preswylwyr o wahanol oedrannau a lefelau hyder digidol i sicrhau bod yr offeryn yn hygyrch ac yn hawdd ei ddefnyddio. Gan weithio'n agos gyda thimau Atgyweiriadau a TG, helpodd tenantiaid i lunio system wedi'i seilio ar brofiad byw, gan feithrin diwylliant cydweithredol lle'r oedd eu harbenigedd yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal ac yn arwain at wasanaeth mwy effeithiol, cynhwysol a chanolbwyntio ar denantiaid.



Mae'r gwelliant gwasanaeth hwn yn ganlyniad clir o fewnwelediad a chyd-ddylunio dan arweiniad tenantiaid, gyda phob agwedd wedi'i llunio gan brofiad byw i ddiwallu anghenion go iawn yn well. Llwyddodd tenantiaid i ddylanwadu ar opsiynau apwyntiadau mwy hyblyg sy'n adlewyrchu ymrwymiadau bob dydd, gan sicrhau hefyd fod yr holl gyfathrebu system yn glir, yn gefnogol ac yn hygyrch trwy ddisodli iaith dechnegol â Saesneg plaen. Fe wnaethant ddileu rhwystrau i ymgysylltu trwy herio a dileu'r "rhybudd ail-wefru", gan greu proses fwy tawelu a chyfeillgar i denantiaid. Yn ogystal, mae nodweddion sy'n cael eu gyrru gan denantiaid fel uwchlwythiadau lluniau a fideos wedi gwella diagnosteg atgyweirio yn sylweddol, gan alluogi ymweliadau wedi'u paratoi'n well, blaenoriaethu mwy effeithiol, cyfraddau atgyweirio tro cyntaf uwch a llai o apwyntiadau ailadroddus, gan wella ansawdd ac effeithlonrwydd cyffredinol y gwasanaeth yn y pen draw.

Mae cyflwyno'r ap atgyweiriadau digidol dan arweiniad tenantiaid a'r offeryn diagnostig wedi cyflawni gwelliannau gweithredol clir tra hefyd wedi cryfhau grymuso a hyder tenantiaid. Mae wedi galluogi archebu apwyntiadau mwy hyblyg, hunan-ddewis, lleihau dibyniaeth ar ganolfannau galwadau, lleihau apwyntiadau a gollwyd, a gwella cyfraddau atgyweiriadau tro cyntaf trwy wybodaeth ddiagnostig well, i gyd yn cyfrannu at effeithlonrwydd gwell ac arbedion cost cynnar. Ar yr un pryd, mae tenantiaid yn nodi ymdeimlad cryfach o reolaeth a rhwyddineb wrth reoli atgyweiriadau, gydag adborth yn tynnu sylw at symllrwydd a chyfleustra'r system. Er ei bod yn dal i fod yn y broses gyflwyno gynnar, mae'r defnydd yn cynyddu, mae hunanwasanaeth digidol yn lleihau'r pwysau ar sianeli traddodiadol, ac mae boddhad a hyder tenantiaid yn y gwasanaeth yn parhau i gynyddu.

Fel y'i hadlewyrchwyd gan y Pennaeth Atgyweiriadau:

"Nid dylanwadodd adborth y tenantiaid ar y gwasanaeth yn unig, fe'i diffiniodd. Rhoddodd eu mewnbwn hyder i ni fod hyn yn rhywbeth y byddai trigolion yn ei ddefnyddio ac yn elwa ohono o ddifrif."

Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu newid sefydliadol ehangach: nid yw tenantiaid bellach yn gyfranwyr at ddolenni adborth; maent yn gyd-awduron dylunio gwasanaethau.

Mae system atgyweiriadau digidol dan arweiniad tenantiaid Trivallis wedi gosod safon newydd ar gyfer gwasanaethau hygyrch, effeithlon ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan ddangos pŵer cyd-gynhyrchu wrth gyflawni gwelliannau ystyrlon a pharhaol i denantiaid a'r sefydliad.





Ein Gardd Ni, Ein Dewis Ni (O'r Cymoedd i'r Arfordir)

Cyswllt: cassie.jennings@v2c.org.uk

Trawsnewidiodd y fenter hon waith cynnal a chadw tiroedd ar draws saith cynllun byw cymunedol drwy ddod â'r gwasanaeth yn fewnol a rhoi 178 o gwsmeriaid wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Gan symud i ffwrdd o gontract un maint i bawb, ymatebodd y sefydliad i adborth gan denantiaid bod manau awyr agored yn anhygyrch ac yn brin o bwrpas, yn enwedig i'r rhai ag anghenion symudedd neu iechyd. Drwy ymgysylltu a chydweithio'n uniongyrchol, helpodd cwsmeriaid i lunio gwasanaeth mwy personol a hyblyg a ddarperir gan dîm mewnol ymroddedig, gan feithrin ymddiriedaeth a chreu gerddi sy'n hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol, lles a balchder. Mae'r newid hefyd wedi darparu gwell gwerth am arian drwy ostyngiad mewn ffioedd gwasanaeth a gwell tryloywder, tra bod canlyniadau cynnar yn dangos gwelliannau sylweddol o ran hygyrchedd, ymddangosiad a boddhad cwsmeriaid. Yn y pen draw, nid yn unig y mae'r fenter wedi gwella safonau cynnal a chadw ond mae hefyd wedi adfer ymdeimlad o berchnogaeth, urddas a chymuned, gan ddangos effaith bwerus dylunio gwasanaethau dan arweiniad cwsmeriaid.



“Gwneud ein Tŷ yn Gartref” Cyd-greu Addewid Atgyweiriadau (Tai Tarian)

Cafodd Addewid Atgyweiriadau Tai Tarian ei gyd-greu trwy broses hynod arloesol a chynhwysol a ddaeth â thenantiaid, staff a hwylusydd cyd-ddylunio ynghyd i ail-lunio'r gwasanaeth atgyweiriadau adweithiol yn seiliedig ar brofiad byw. Trwy gyfres o weithdai deniadol, gweithgareddau creadigol fel cyfansoddi caneuon, a dulliau rhyngweithiol fel cwis tafarn, cafodd tenantiaid eu grymuso i rannu adborth gonest a diffinio sut y dylai gwasanaeth atgyweiriadau teg, ymatebol ac o ansawdd uchel edrych. Roedd y broses yn blaenoriaethu cyfranogiad amrywiol ac adeiladu perthnasoedd, gyda thenantiaid nid yn unig yn dylanwadu ond yn llunio canlyniadau'n uniongyrchol, gan gynnwys polisi atgyweiriadau diwygiedig a blaenoriaethau trawsnewid yn y dyfodol. Y canlyniad yw Addewid Atgyweiriadau clir, sy'n cael ei hysbysu gan denantiaid, sy'n gosod disgwyliadau cyffredin ynghylch ansawdd, cyfathrebu, diogelwch a pharch, gan wella eglurder ar categorïau ac amserlenni atgyweirio. Mae'r fenter wedi cryfhau ymddiriedaeth rhwng tenantiaid a'r sefydliad, wedi dangos gwerth cyd-gynhyrchu gwirioneddol, ac mae eisoes yn dylanwadu ar waith trawsnewid ehangach. Mae ymgysylltiad parhaus trwy grwpiau Llais y Tenantiaid yn sicrhau goruchwyliaeth barhaus gan denantiaid, gan ymgorffori diwylliant lle mae gwranddo, cydweithio a gwelliant parhaus yn gyrru gwasanaethau gwell a pherthnasoedd cryfach.

Cymunedau'n Cefnogi Cymunedau



ENILLYDD

Clwb Technoleg 'MenShed' a Thîm Gwasanaethau Cymunedol / Digidol Hedyn

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Nathan.davies@hedyn.wales

Mae 'MenShed' Casnewydd wedi chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol ar draws Casnewydd a'r cymunedau cyfagos trwy ei Glwb Technoleg, gan gefnogi trigolion i gael mynediad at dechnoleg, hyder digidol a gwasanaethau ar-lein hanfodol. Gan weithio mewn partneriaeth â Hedyn, mae'r 'MenShed' wedi galluogi gliniaduron dros ben i gael eu hailddefnyddio a'u hailddosbarthu mewn ffordd sy'n darparu budd gwirioneddol ac ymarferol i unigolion a chymunedau sy'n profi tlodi digidol.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Clwb Technoleg 'MenShed' Casnewydd wedi cefnogi ailbwrpasu ac ailddosbarthu dros 180 o liniaduron. Yn fwyaf diweddar, mae 200 o ddyfeisiau pellach wedi'u paratoi ac yn barod i'w hailbwrpasu, gyda dosbarthiad wedi'i gynllunio ar draws ardaloedd gweithredu Hedyn. Mae model 'MenShed' Casnewydd wedi'i wreiddio mewn hygyrchedd, ymddiriedaeth a chefnogaeth dan arweiniad cyfoedion. Trwy eu gwaith, maent wedi cefnogi cannoedd o unigolion i gael mynediad:

- Gwasanaethau iechyd ar-lein
- Cyfathrebu â budd-daliadau a'r Adran Gwaith a Phensiynau
- Bancio ar-lein a thalu biliau
- Cysylltiad cymdeithasol drwy e-bost a chyfryngau cymdeithasol
- Cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a dysgu



Mae 'MenShed' yn darparu:

- Amgylchedd diogel, di-farn i ddysgu a gofyn cwestiynau
- Cefnogaeth ymarferol gan wirfoddolwyr medrus
- Cyfleoedd i ddynion gyfrannu eu harbenigedd wrth leihau unigedd

Drwy bartneriaeth â thimau Cymunedau a Gwasanaethau Digidol Hedyn, mae'r MenShed yn derbyn gliniaduron a fyddai fel arall yn cael eu datgomisiynu. Mae gwirfoddolwyr y Clwb Technoleg yn adnewyddu'r dyfeisiau hyn, gan sicrhau eu bod yn ddiogel, yn ymarferol ac yn addas i'w defnyddio bob dydd cyn eu rhoi i unigolion neu grwpiau cymunedol.

Mae'r dull hwn yn dileu sawl rhwystr ar unwaith, gan gynnwys:

- Ariannol – mae dyfeisiau am ddim i dderbynwyr
- Yn seiliedig ar hyder – mae'r gefnogaeth yn cael ei harwain gan gymheiriaid ac yn anffurfiol
- Yn seiliedig ar fynediad – mae dyfeisiau wedi'u gosod mewn lleoliadau cymunedol cyfarwydd

Gyda phartneriaeth barhaus, mae 'MenShed' Casnewydd yn anelu at:

- Ehangu ailddefnyddio dyfeisiau ar draws cymunedau ehangach
- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi i gefnogi cynhwysiant digidol
- Cefnogi grwpiau cymunedol i weithredu fel pwyntiau mynediad lleol ar gyfer cymorth digidol
- Parhau i weithio gyda Hedyn i fynd i'r afael â thlodi digidol ar raddfa fawr

Gweithio mewn Partneriaeth a Chynaliadwyedd


Er bod 'MenShed' Casnewydd yn arwain y ddarpariaeth ar lawr gwlad, mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn allweddol i gynnal a graddio'r effaith. Mae Hedyn yn cefnogi'r fenter drwy nodi angen ar draws ei phum ardal awdurdod lleol a chyflenwi gliniaduron dros ben ar gyfer adnewyddu. Mae partneriaid ychwanegol fel Good Things Foundation yn darparu cardiau SIM, dyfeisiau ac adnoddau hyfforddi, gan helpu i sicrhau bod pobl nid yn unig yn derbyn offer ond hefyd cysylltedd a sgiliau. Mae cysylltiadau â chanolfannau cymunedol, hybiau cynnes a banciau bwyd yn ymestyn y cyrhaeddiad ymhellach.

Mae'r model cydweithredol hwn yn sicrhau:

- Rhennir sgiliau, adnoddau ac asedau yn effeithiol
- Mae sefydliadau cymunedol yn parhau i fod yn ganolog i'r ddarpariaeth
- Mae'r ymagwedd yn gynaliadwy, yn raddadwy ac yn ailadroddadwy

Mae Clwb Technoleg 'MenShed' Casnewydd yn dangos pŵer gweithredu dan arweiniad y gymuned wrth fynd i'r afael â'r bwch digidol. Drwy gyfuno sgiliau ymarferol, ymrwymiad gwirfoddolwyr a phartneriaethau cryf, mae MenShed wedi galluogi cannoedd o bobl i gael mynediad at dechnoleg, gwasanaethau a chyfleoedd sy'n gwella eu bywydau bob dydd.

Mae'r fenter hon yn dangos sut y gall sefydliadau cymunedol, pan gânt eu cefnogi a'u hymddiried, chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu atebion cynhwysol ac effeithiol gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl mewn byd digidol.





Gwirfoddolwyr Cymunedol Penrhys (Trivallis)

Cyswllt: Jen.oharajakeway@trivallis.co.uk

Mae gwirfoddolwyr Eglwys Penrhys yn cynrychioli ymdrech gymunedol eithriadol a hirhoedlog, gan ddarparu cefnogaeth ymarferol, gymdeithasol ac emosiynol hanfodol wedi'i theilwra i anghenion lleol. Trwy wasanaethau fel banc bwyd, caffi cost isel, darpariaeth dillad a dodrefn, gweithgareddau ieuencid a lles, ac allgymorth un-i-un, maent wedi creu canolfan ddibynadwy a chynhwysol sy'n cefnogi cannoedd o drigolion bob wythnos. Mae eu gwaith wedi lleihau caledi, cryfhau cysylltiadau cymunedol, a sicrhau nad yw unigolion agored i niwed yn cael eu hynysu, yn enwedig yn ystod cyfnod o adfywio. Trwy adeiladu partneriaethau cryf a galluogi trigolion i lunio penderfyniadau lleol, maent wedi cynnal ysbryd cymunedol, cynyddu hyder a chyfle, a dangos effaith bwerus dull gweithredu dan arweiniad y gymuned go iawn.



Prosiect 'Bumps and Jumps' (Grŵp Cynefin a HWB Dinbych)

Cyswllt: Megan.moores@hwbdinbych.org

Mae rhaglen Actif Gogledd Cymru wedi grymuso pobl ifanc yn Ninbych Uchaf i arwain newid cymunedol ystyrlon drwy gael gwared ar rwystrau i weithgarwch corfforol. Drwy ymgysylltu dan arweiniad pobl ifanc, nododd grŵp o fechgyn y diffyg manau beicio diogel a, gyda chefnogaeth y gymuned, dyluniodd a chyflawnodd y prosiect 'Bumps and Jumps', gan arwain at drac pwmpio newydd, a ddefnyddir yn helaeth. Mae eu cyfranogiad ym mhob cam wedi meithrin hyder, sgiliau arweinyddiaeth a phartneriaethau cryf ar draws sefydliadau lleol. Mae'r prosiect wedi gwella diogelwch, cynyddu lefelau gweithgarwch, a chreu ased cymunedol parhaol sy'n parhau i ddod â phobl ynghyd a chefnogi mentrau ehangach fel hyfforddiant cynnal a chadw beiciau a chyfluoedd beicio hygrych.

Cyfathrebu â Thenantiaid a Phreswylwyr

ENILLYDD



'Cartref' - Taflen gyhoeddus bwrpasol Tai Tarian ar gyfer tenantiaid

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Polly.oliver@taitarian.co.uk

Lansiwyd 'Cartref' yng ngwanwyn 2022, a datblygwyd gyda thenantiaid yn ganolog iddo, gan adeiladu ar ymrwymiad hirhoedlog i gyd-ddylunio dulliau cyfathrebu gyda nhw. Roedd tîm cyfathrebu Tai Tarian eisoes wedi cofleidio defnydd arloesol o gyfryngau cymdeithasol, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y pandemig, gan gydnabod y dibyniaeth gynyddol ar lwyfannau digidol. Helpodd y dull hwn, dan arweiniad Rachel Gardiner-James, i feithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad cryf gyda thenantiaid a hyd yn oed lywio dysgu ledled y sector trwy seminarau.



Fodd bynnag, amlygodd adborth a mewnwelediadau tenantiaid o fentrau fel Academi'r Tenantiaid ac arolygon rwystrau digidol parhaus i lawer o drigolion, yn enwedig y rhai dros 55 oed. Yn ystod pandemig Covid-19, pwysleisiodd "Galwadau Diogel ac Iach" ymhellach fod deunyddiau printiedig yn parhau i gael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y grŵp hwn. O ganlyniad, roedd angen clir i sicrhau y gallai gwybodaeth hanfodol a straeon cymunedol cadarnhaol gyrraedd pob tenant, waeth beth fo'u mynediad digidol.

Mewn ymateb, ymrwymodd Tai Tarian i ddosbarthu cyhoeddiad printiedig i bob tenant bedair gwaith y flwyddyn, gan gyd-fynd â'i werthoedd o fod yn feiddgar, yn garedig ac yn deg. Cafodd datblygiad 'Cartref' ei lunio hefyd gan ddysgu proffesiynol parhaus, gyda'r tîm cyfathrebu yn tynnu ar arfer gorau o sefydliadau sector fel TPAS Cymru a CHC i sicrhau bod y fenter yn adlewyrchu anghenion tenantiaid a mewnwelediadau ehangach i'r diwydiant.

Mae Cartref Tai Tarian yn adeiladu ar etifeddiaeth gref o adrodd straeon sy'n canolbwyntio ar y cwsmer a sefydlwyd trwy *Grapevine*, cyhoeddiad print dibynadwy. Dangosodd mewnwelediadau o ymgysylltu â thenantiaid, er gwaethaf twf sianeli digidol, fod cyfathrebu print yn parhau i fod yn werthfawr ar draws pob grŵp oedran. Roedd hyn yn amlwg yn ystod pandemig Covid-19, pan chwaraeodd print rôl hanfodol wrth rannu diweddariadau hanfodol a straeon cymunedol. Helpodd profiad golygyddol Rachel a mewnwelediad tenantiaid i lunio Cartref fel parhad modern o'r dull hwn.

Dyweddod Nia Singleton, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn Tai Tarian, hyn:

“Roedden ni eisiau torri drwy (y cyfryngau cymdeithasol) a chreu rhywbeth ffres mewn fformat print. Roedd mynd yn hen ffasiwn ac argraffu papur newydd ar gyfer tenantiaid Tai Tarian yn unig yn ffordd gyffrous iawn o ailgysylltu â chwsmeriaid, codi ymwybyddiaeth o’n gwasanaethau, rhannu gwybodaeth angenrheidiol a straeon eu cymuned.”



NEW BEGINNINGS FOR BEANY!

Port Talbot's very own capped crusader is enjoying sea views after closing his Baked Bean Museum and moving into a new home in Sandfields.

Captain Beany was 'born' in 1991 and since then has raised over £100,000 for local charities and worthwhile causes in our communities.

His Baked Bean Museum which opened in 2006, attracted not only locals, but visitors from across the world, with the attraction named as the best tourist spot in Port Talbot on TripAdvisor.

The commitment of running the museum for 13 years and the pending redevelopment of his block of flats meant Captain Beany decided it was time to close the doors on the attraction earlier this year...

More on his new home on page 7.



WIN £100 IN TIME FOR CHRISTMAS WITH OUR LATEST COMPETITION

More on page 8.



ALL ABOUT THE COMMUNITY

Meet the trio spreading the love in our communities.

More on page 4.



TOP MONEY TIPS FROM STEPH

With colder months and the cost of Christmas around the corner Steph has details of all the support available.

More on page 3.

Nod 'Cartref' oedd ailgysylltu â thenantiaid a darparu cynnwys ystyrlon ac ymarferol. Cyfunodd straeon tenantiaid, diweddariadau sefydliadol, a chanllawiau hygyrch â nodweddion deniadol fel ryseitiai, posau a chystadlaethau. Roedd y dull hwn yn adlewyrchu ymrwymiad i lesiant ac yn sicrhau bod y cyhoeddiad yn rhywbeth y byddai tenantiaid yn ei gadw ac yn ailymweld ag ef, yn hytrach na chyfathrebiad tafladwy.

Roedd y penderfyniad i flaenoriaethu print hefyd yn ymateb i heriau gorlwytho digidol. Drwy greu cyhoeddiad corfforol o ansawdd uchel, roedd Tai Tarian yn gallu torri trwy negeseuon cystadleuol, cryfhau ymgysylltiad, ac arddangos cyflawniadau cymunedol. Mae'r fformat dalen fawr yn cefnogi adrodd straeon clir ac yn atgyfnerthu cysylltiad y sefydliad â thenantiaid.

Mae hygyrchedd a gwelliant parhaus yn ganolog i lwyddiant Cartref. Mae'r cyhoeddiad wedi'i lunio gan asesiadau cydraddoldeb, dyluniad a adolygydd gan RNIB, ac adborth parhaus gan denantiaid. Mae arolygon a grwpiau ffocws yn gyson yn tynnu sylw at ei werth, tra bod awgrymiadau gan denantiaid - megis llywio cliriach a mwy o gynnwys dan arweiniad tenantiaid - yn cael eu hymgorffori'n weithredol. Ochr yn ochr â hyn, mae Cartref yn chwarae rhan bwysig wrth herio stigma trwy ddathlu cyflawniadau tenantiaid a hyrwyddo balchder yng nghymuned Tai Tarian.

Mae Cartref yn meithrin ymdeimlad o falchder o fod yn rhan o gymuned Tai Tarian a bydd yn parhau i'w ddefnyddio ar y cyd â sianeli cwsmeriaid, mewnol a chyhoeddus eraill i eiriol dros effaith gadarnhaol tai cymdeithasol ar y lefel bersonol, gymunedol ac ehangach.

Darllenwch rai enghreifftiau o Cartref drwy'r ddolen ganlynol:

<https://www.taitarian.co.uk/publications/cartref/>



Newyddlen 'Community Connects Us' (Tai Cymunedol Cynon Taf)

Cyswllt: cbradwick@cynon-taf.org.uk

Mae 'Community Connects Us' wedi dod yn llawer mwy na newyddlen, gan esblygu i fod yn blatfform dibynadwy, wedi'i siapio gan denantiaid sy'n cryfhau cysylltiad, balchder ac ymgysylltiad ar draws cymunedau. Wedi'i gynllunio gan ddefnyddio adborth tenantiaid a hyd yn oed wedi'i enwi trwy gystadleuaeth, mae'n defnyddio iaith glir, gyfeillgar a fformatau hygyrch i sicrhau y gall pawb ymgysylltu, boed mewn print neu'n ddigidol trwy ddolenni QR. Mae pob rhifyn yn cyfuno straeon cymunedol calonogol â chanllawiau ymarferol, hawdd eu deall ar bynciau pwysig fel diogelwch a lles yn y cartref, gan helpu tenantiaid i deimlo'n wybodus a'u bod yn cael eu cefnogi. Trwy arddangos profiadau go iawn a hyrwyddo gweithgareddau lleol, mae wedi cynyddu cyfranogiad, wedi annog mynediad cynharach at wasanaethau, ac wedi meithrin perthnasoedd cryfach rhwng tenantiaid a'r sefydliad. Yn y pen draw, mae'r cylchlythyr wedi ymgorffori ei hun ym mywyd y gymuned, gan roi llais i denantiaid, dathlu eu cyflawniadau, a meithrin ymdeimlad mwy o berthyn ac ymddiriedaeth..



'Connect' (Hafod)

Cyswllt: sian.price@hafod.org.uk

